| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **30 Mehefin 2015** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid** |
| **Teitl:** | **Canlyniad Refeniw Terfynol 2014/15** |

## 1. Am beth y mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r Cabinet wedi derbyn adroddiadau monitro cyson drwy gydol y flwyddyn ariannol ar berfformiad gwariant yn erbyn cyllideb ac arbedion a gytunwyd fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cyflwynir drafft cyntaf y Datganiad Cyfrifon Blynyddol am 2014/15 i'r archwilwyr allanol ar 30 Mehefin. Bydd y cyfrifon, yn dilyn eu harchwilio, yna'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Medi i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I adrodd ar y sefyllfa refeniw derfynol a chymeradwyo sut y bwriedir delio â'r balansau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi y canlyniad refeniw terfynol am 2014/15 a chymeradwyo cynlluniau i ddelio â'r balansau a'r arian wrth gefn a ddisgrifir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1 a 2.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Y canlyniad terfynol cyffredinol am 2014/15 yw tanwariant yn erbyn y gyllideb gymeradwy sydd, ynghyd ag incwm net gwell na'r disgwyl o Dreth y Cyngor, yn cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor. O ganlyniad gallwn argymell bod gwasanaethau'n cario balansau drosodd ac yn trosglwyddo i gronfeydd arian wrth gefn penodol gan felly barhau i helpu'r Cyngor i ymdopi â phwysau ariannol y blynyddoedd nesaf ac i gwrdd â'r ymrwymiadau arian parod sydd eu hangen i ddarparu'r Cynllun Corfforaethol.

Rhoddir manylion y ffigurau Canlyniad Refeniw terfynol yn Atodiad 1, ynghyd â sut y bwriedir delio â'r balansau gwasanaeth diwedd blwyddyn. Y sefyllfa derfynol gyda'r cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol yw tanwariant o £1.075m (0.57% o'r gyllideb refeniw net).

Mae gwasanaethau'n parhau i fod yn rhagweithiol wrth gynllunio i wneud arbedion dros y blynyddoedd nesaf, a dechreuodd effaith ariannol rhai o'r cynigion hynny gael ei gweld yn 2014/15. Adroddwyd ar ymrwymiadau yn erbyn balansau ym mis Mawrth sy'n gyson fwy neu lai â'r sefyllfa net derfynol. Roedd y rhan fwyaf o'r balansau wedi'u rhagweld oherwydd materion amseru (e.e. oedi gyda gweithredu newidiadau gwasanaeth neu gydag ymrwymiadau gwariant penodol). Yn ogystal, mae gan bedwar gwasanaeth gynigion i drosglwyddo cyllid i gronfeydd arian wrth gefn penodol, fel a ganlyn:

- Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden – cais i sefydlu cronfa arian wrth gefn ar gyfer hamdden i helpu i liniaru'r risg o unrhyw doriadau refeniw yn y dyfodol (oherwydd y toriadau i'w cyllidebau sylfaenol) ac i gyfrannu at brynu offer a chyfarpar pwll nofio newydd. Mae'r Cabinet eisoes wedi cytuno i sefydlu £40k fel cronfa gyfarpar wrth gefn. Cynigir cynyddu hyn i £140k.
- Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol – cais bod y tanwariant canol blwyddyn o £151k ar Cefndy Healthcare yn cael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn benodol fel arian hapddigwyddiad yn erbyn risgiau masnachu yn y dyfodol o gofio bod y gyllideb weithredol sylfaenol wedi'i dileu yn 2015/16.
- Datblygu Economaidd a Busnes – cynnig i drosglwyddo £128k i gronfa Cynlluniau Tref ac Ardal fel rhan o'r strategaeth gyllideb gytunedig am 2015/16 o ddileu'r dyraniad cyllideb sylfaenol gan dybio y byddai cyllid arian parod yn cael ei gario drosodd.
- Priffyrdd ac Amgylchedd – cynnig i greu a gwneud cyfraniad o £147k at gronfa tywydd garw. Bydd y gronfa hon yn amsugno'r gronfa bresennol ar gyfer cynnal a chadw dros y gaeaf, a darpariaeth flaenorol a neilltuwyd ar gyfer llifogydd, gan roi cyfanswm o £176k ac yn helpu i liniaru'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r gost o ymateb i ddigwyddiadau tywydd garw yn y dyfodol.

Rhoddir mwy o wybodaeth am y **canlyniad gwasanaeth terfynol,** a sut y bwriedir defnyddio'r balansau canol blwyddyn, yn **Atodiad 2.**

**Ysgolion –** Roedd y gwariant ar ysgolion £0.354m yn fwy na'r gyllideb ddirprwyedig. Saif y balansau ysgolion bellach ar £3.538m sydd cyfwerth â £232 y disgybl ar gyfartalog (£256 y llynedd) a 5.12% o'r gyllideb ysgolion net (5.66% y llynedd). Rhoddir manylion am y balansau ysgol yn **Atodiad 3.**

Effeithir ar faint o incwm a ddaw o **Dreth y Cyngor** gan nifer y tai yn y Sir a'r gyfradd gasglu. Mae'r Cyngor wedi cynnal lefel gymharol uchel o gasgliadau treth, sef 97.6%, (97.7% y llynedd). Roedd tybiaethau pan bennwyd y cyllidebau wedi ystyried lleihad posibl yn y cyfraddau casglu ac, ar sail profiadau blynyddoedd blaenorol, cyfraniadau ychwanegol i gyllido darpariaethau ar gyfer dyledion drwg. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi parhau i gynnal cyfradd gasgliadau uchel, er ei bod fymryn yn llai, ac roedd y cyfraniad at y ddarpariaeth dyledion drwg yn llai na'r disgwyl. O'r herwydd nid oedd angen defnyddio unrhyw gyllid ychwanegol o falansau cyffredinol.

O ganlyniad, mae'r sefyllfa cyllid net derfynol £235k (0.6%) yn fwy na'r amcan gwreiddiol ac mae gan y Cyngor felly fudd untro'n unig. Argymhellir bod yr

arian hwn yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Cyflwyno Newid / Moderneiddio i helpu i dalu am gost gychwynnol y prosiectau rheoli newid a moderneiddio gwasanaeth dros y ddwy flynedd nesaf. Oherwydd bod hwn yn ymwneud â chyllid a'i fod ar wahân i sefyllfa'r cyllidebau gwasanaeth, tybiwyd y trosglwyddiad eisoes wrth ddadansoddi cronfeydd wrth gefn penodol fel y caiff ei gyflwyno yn Atodiad 4, ond mae dal angen i'r Cabinet ei gymeradwyo. Mae Atodiad 4 yn rhoi manylion am yr holl gronfeydd wrth gefn penodol a'r symudiadau o fewn y flwyddyn.

Mae polisi'r Cyngor ar reoli a monitro arian wrth gefn yn cael ei ddiweddaru a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cyfrifon terfynol ym mis Medi.

Mae'r Cyngor wedi cyllidebu i wneud cyfraniadau i gyllido'r Cynllun Corfforaethol. Ar sail tybiaethau presennol, mae angen tua £24m o arian parod a £40m o arian benthyg ar y Cynllun i gyflawni uchelgeisiau'r Cyngor. Rhan o'r strategaeth ar gyfer gwneud hyn oedd adnabod adnoddau cyllideb refeniw i gynhyrchu arian parod i gyllido gwariant cyfalaf. Tybiodd gyllideb 2014/15 y byddai cyfraniadau at gyllido'r Cynllun Corfforaethol yn dod o gyllid blaenoriaeth, darpariaethau a gyllidebwyd mewn cyllidebau corfforaethol a throsglwyddiadau arian parod canol blwyddyn eraill. Cyfanswm y cyllid a ddyranwyd i gronfa wrth gefn y Cynllun Corfforaethol o gyllideb refeniw 14/15 yw £3.5m, gyda £280k pellach i ddod fel rhan o'r sefyllfa derfynol. Hefyd yn ystod y flwyddyn, ailddyranwyd £1.1m o gyllid a neilltuwyd yn wreiddiol i dalu am gost hawliadau cyflog cyfartal hanesyddol (adroddiad Cabinet Chwefror 2015).

Gyda gwariant o £2.1m yn erbyn cronfa wrth gefn y Cynllun Corfforaethol yn ystod y flwyddyn, y sefyllfa derfynol diwedd blwyddyn yw balans o £17.4m.

O ystyried y sefyllfa gyffredinol o fewn y gwasanaethau, cynigir ar hyn o bryd bod y gwasanaethau'n cael cario drosodd y tanwariant net a restrir fel Balansau Gwasanaeth Ymrwymedig yn Atodiad 1 i helpu i ddarparu strategaeth gyllideb 2015/16 ac i gwrdd ag ymrwymiadau presennol. Bydd angen i wasanaethau amlinellu'n fwy manwl sut y cafodd y balansau a gariwyd drosodd eu defnyddio yn 2015/16, yn yr Adroddiad Cyllid i'r Cabinet ym mis Hydref. Gallai unrhyw falansau na ddefnyddiwyd gael eu hailddyrannu o ganlyniad i'r adolygiad hwn.

Mae'r Cyngor yn y broses o derfynu contract PFI Neuadd y Sir. Mae'r broses negodi'n parhau gyda sylwedd y trafodiad yn fras yn golygu y byddai'r Cyngor yn terfynu cytundeb prydles ac yn talu iawndal ariannol i'r prydlesydd. Cytunwyd ar y broses o derfynu'r cytundeb fel rhan o broses pennu cyllideb 2015/16 a bydd yn arwain at arbedion refeniw i'r Cyngor. Gwnaed tybiaethau yn y gyllideb cyllid cyfalaf y byddai'r trafodiad wedi'i gwblhau erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2014/15. Fodd bynnag, oherwydd bod y negodi'n parhau, trosglwyddwyd y darpariaethau a wnaed yn 2014/15 i'r Gronfa PFI i hwyluso'r trafodiad yn ystod 2015/16.

## 5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor, a darparu'r strategaeth gyllideb gytunedig, yn ategu'r gwaith a wneir ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint y bydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor am 2014/15 yn £188m. Y sefyllfa derfynol gyda'r cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol oedd tanwariant o £1.075m (0.57% o'r gyllideb net). Wedi ystyried cyllido, roedd yr amrywiant ar y gyllideb gyfan yn £1.3m (0.69%). Lle mae gwasanaethau wedi amlygu ymrwymiadau gwariant cyfreithlon yn erbyn balansau 2014/15, cynigir bod y gwasanaethau hynny'n cario'r balans net drosodd i 2015/16. Bydd y sefyllfa ym mhob gwasanaeth, a sut y bwriedir defnyddio'r balansau a gariwyd drosodd, yn cael ei adolygu yn hydref 2015/16.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?**

Cyflwynwyd Asesiad Cryno o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'r Cyngor yn Chwefror 2014.

**8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Cynhaliwyd cyfarfodydd cyllideb â phob pennaeth gwasanaeth ac aelod Cabinet wrth bennu cyllideb 2014/15. Cynhaliwyd gweithdai cyllideb ag aelodau yn ystod y flwyddyn. Cafodd y cynllun cyfalaf ei gymeradwyo gan y Cyngor yn dilyn craffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac argymhelliad gan y Cabinet.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli eu cyllidebau'n ddarbodus a bod unrhyw weddill canol blwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn enwedig o ystyried faint o doriadau cyllideb sydd i ddod dros y ddwy flynedd nesaf.

Yn y tair blynedd ddiwethaf, llwyddodd y Cyngor i wneud bron i £14m o arbedion cyllideb refeniw, sy'n dipyn o gamp. Mae'r ffaith bod y Cyngor yn adnabod arbedion mor fuan â phosibl yn golygu bod rhai arbedion yn cael eu creu'n fuan sy'n effeithio ar y sefyllfa canol blwyddyn. Hyd yn oed yn yr hinsawdd ariannol ansicr bresennol, mae cyfanswm yr amrywiant ar gyllideb gros o dros £280m yn llai na hanner un y cant.

Mae'r sefyllfa derfynol yn golygu bod modd gwneud y cyfraniadau sydd eu hangen i gyllido'r Cynllun Corfforaethol. Ni ellir darparu'r Cynllun oni allwn glustnodi'r adnoddau arian parod angenrheidiol i'w buddsoddi mewn ysgolion, gofal cymdeithasol a blaenoriaethau eraill. Mae'r llwyddiant gydag adnabod a chlustnodi adnoddau i ddarparu'r Cynllun dros y tair blynedd diwethaf, ynghyd â chyfnod o gostau benthyca hanesyddol isel, yn golygu os yw'r tybiaethau

presennol ynghylch costau a chyllid yn y dyfodol yn gyson, y bydd y Cynllun yn fforddiadwy ac felly'n gyraeddadwy o safbwynt ariannol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol anoddaf a wynebodd y Cyngor erioed a bydd methu â darparu'r strategaeth gyllideb a gytunwyd yn rhoi pwysau pellach ar wasanaethau yn y blynyddoedd ariannol presennol ac i ddod. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau y gallwn gyflawni'r strategaeth ariannol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu busnes ariannol yn briodol.